

Teitl y Swydd: Llysgennad Myfyrwyr – Bywyd Preswyl

Uned/Ysgol: Gwasanaethau Myfyrwyr

Gradd: 1A/B

HERA: CMSR68

Prif bwrpas y rôl

Cynorthwyo'r Cydlynnydd Pontio Myfyrwyr gyda hyrwyddo, cyfranogiad ac ymgysylltiad â digwyddiadau 'Bywyd Preswyl', yn Neuaddau Plas Gwyn, Campws Cyncoed a Champws Llandaf.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Bod yn llysgennad gweithgar a hyblyg, gan ganolbwyntio ar drefnu, cydlynu a hyrwyddo digwyddiadau.
- Cefnogi digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Groeso (gan gynnwys gweithgareddau yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau).
- Hwyluso/cydlynu digwyddiadau neu weithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnosau yn eich neuaddau preswyl yn ystod y tymor.
- Hyrwyddo digwyddiadau 'Res Life' yn y neuaddau preswyl drwy bosteri, cyfryngau cymdeithasol ac ati yn ystod y tymor.
- Cydweithio â'r Llysgenhadon Bywyd Preswyl eraill a'r Cydlynnydd Pontio Myfyrwyr, gan gyfarfod yn rheolaidd i drefnu a chynllunio digwyddiadau.
- Helpu myfyrwyr i ymgartrefu yn y neuaddau preswyl ac i wneud ffrindiau.
- Helpu i gasglu adborth drwy godau QR a holiaduron fel rhan o'r digwyddiadau.
- Bod yn rhagweithiol wrth ymgynghori â myfyrwyr yn eich neuaddau preswyl ynghylch syniadau ar gyfer digwyddiadau, ac wrth ddefnyddio eu mewnbwn i benderfynu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol.
- Cofnodi'r holl weithgareddau, oriau a manylion presenoldeb i'w hadolygu mewn cyfarfodydd rheolaidd o lysgenhadon a chydlynwyr pontio.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Bod yn fyfyrwr presennol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd sydd wedi byw, yn byw ar hyn o bryd, neu sydd yn mynd i fyw yn neuaddau preswyl Cyncoed neu Plas Gwyn.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â threfnu a chydlynu digwyddiadau.
2. Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar.
3. Y gallu i wrando, parodrwydd i wneud ymdrech ychwanegol, bod yn berson agored a chymdeithasol, a meddu ar sgiliau cymdeithasol da ac agwedd gadarnhaol.
4. Y gallu i ymdrin â heriau mewn modd tawel a hyderus, a'u cyfeirio at lefel uwch lle bo'n briodol.
5. Y gallu i drefnu digwyddiadau ac annog pobl i gymryd rhan ynddynt.
6. Y gallu i wrando ac arddangos agwedd gydymdeimladol ac empathig tuag at fyfyrwyr a gwesteion.
7. Agwedd drefnus, hyblyg ac addasadwy i ddiwallu anghenion y rôl.
8. Y gallu i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel offeryn marchnata.

Dymunol

1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl, a sut i ymateb ac arwain unigolion at gymorth priodol.
2. Profiad o redeg digwyddiadau o ddydd i ddydd gyda goruchwyliaeth leiaf bosibl.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau Cymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.				
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid yw'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig, ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Nid yw'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hwn wedi'u bwriadu i fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi ystyriaeth briodol i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos eu bod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.